

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad - Rheoliadau drafft Cyd-bwyllgorau Corfforaedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Eich enw: David Cook

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn: dcook@wcva.cymru

Eich cyfeiriad: Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

C1. Ydy'r rheoliadau drafft yn glir – Ydyn / Nac ydyn?

Os nad ydyw, rhowch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.

Nawr y byddant yn gyrff statudol cyfansoddiadol ar wahân, dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu hychwanegu at y rhestr o fudiadau y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol iddynt. Mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i wneud hyn drwy reoleiddio dan Adran 52 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/52/enacted>

Fel y nodwyd yn [ein hymateb blaenorol](#) i'r pwnc hwn, mae'n rhaid i sut y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu wrth ochr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn glir er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Mae hwn yn fater pwysig ond nid oes unrhyw eglurder o ran hyn naill ai yn y rheoliadau nac yn y canllawiau. Cynigir rhagor o fanylion am y pryderon hyn yn ein hateb i Gwestiwn 4.

C2. A ydynt yn darparu'n glir ar gyfer;

- a) swyddogaethau rhai 'swyddogion gweithredol' (Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Ariannol) i gefnogi gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig – Rhan 1. Ydyn / Nac ydyn?

Os nac ydyn, rhowch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.

Mae'n rhaid i'r Swyddogion Monitro sicrhau bod pwyllgorau craffu yn meddu ar lwybrau agored, hygyrch ar gyfer ymgysylltu er mwyn i bob rhanddeiliad, gan gynnwys y sector gwirfoddol, allu ymgysylltu. Hefyd, mae'n rhaid i brosesau cyllidebu gefnogi tryloywder a chael eu cyhoeddi mewn fformat hygyrch.

- b) darpariaethau cyffredinol o ran staff Cyd-bwyllgor Corfforedig - Rhan 2. Ydyn / Nac ydyn?

Os nac ydyn, rhowch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.

- c) cyflawni swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig gan unigolion eraill - Rhan 3. Ydyn / Nac ydyn?
Os nac ydyn, rhowch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.**

Fel y nodwyd yn ein hymateb blaenorol, os bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu swyddogaethau cynghorau lleol at ddibenion penodol, dylai fod gofyniad arnynt i feddu ar fesurau i gefnogi'r un lefelau o dryloywder, atebolrwydd, a chyfranogiad.

- d) rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion Cyd-bwyllgor Corfforedig - Rhan 4. Ydy / Nac ydy?
Os nac ydyn, rhowch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.**

Croesawir bod modd i'r sector gael ei 'gyfethol' i Gyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'n rhaid i unrhyw gynrychiolwyr a gyfetholir yn y ffordd hon gael cynnig o gymorth ac adnoddau er mwyn sicrhau bod modd iddynt gynyddu i'r eithaf yr effaith y gallai'r rôl hon ei chynnig. Hoffem weld cyfeiriad clirach o ran hyn yn y rheoliadau. Ymddengys nad oes unrhyw rwymedigaeth i arweinwyr Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyfethol aelodau ychwanegol nac ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill.

Mae'r rheoliadau yn nodi o hyd, pe bai Cyd-bwyllgor Corfforedig yn mabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen, ni ddylai nifer y pleidleisiau gan aelodau cyfetholedig fod yn fwy na nifer y pleidleisiau gan aelodau'r cyngor. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn yn gadael posibilrwydd na fydd modd i rai aelodau cyfetholedig fwrw pleidlais. Gallai hyn gynnwys aelodau â Nodweddion Gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb neu'r rhai sy'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. I gyflawni tegwch llawn, dylai pob cynrychiolydd, gan gynnwys y rhai a gyfetholwyd, dderbyn hawliau pleidleisio cyfartal.

- e) y nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol a nodwyd, gan gynnwys y newidiadau i'r rheoliadau sy'n sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig – Rhan 5. Ydyn / Nac ydyn?
Os nac ydyn, rhowch fanylion sut gellir gwneud hyn yn gliriach.**

C3. Oes gennych unrhyw farn am yr effeithiau penodol y gallai'r Rheoliadau drafft Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, byddem yn croesawu eich barn.

C4. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi nodi'r rheini hefyd.

Yn ystod ein gwaith ymgysylltu ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth, mynegodd y sector gwirfoddol bryderon y gallai cynrychiolaeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig (aelodau etholedig, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ati) olygu y byddai partneriaethau a pherthnasau â Byrddau Iechyd (sydd fel arfer yn anodd eu meithrin) a'r sector yn cael eu peryglu a byddai diffyg cydweithredu a chyd-gynhyrchu. Hefyd, gallai creu lefel fiwrocratig arall rwystro eglurder cenedlaethol a pheidio â sicrhau bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei gweithredu yn unol â'r bwriad. Mae'n aneglur pa swyddogaethau y byddant yn cael eu trosglwyddo o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a pha swyddogaethau a gyflawnir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu gyrff newydd arall a grëir, yn enwedig ar gyfer gofal cymdeithasol.

Byddwn ni'n ymateb i'r ymgynghoriad ar ganllawiau Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn yr ymateb hwn, byddwn ni'n nodi mwy am y ffordd y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig weithredu ac ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych chi fod eich ymateb yn aros yn ddienw, ticiwch yma: